

# Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol 2015

Mehefin 2015

**UCAC** | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

# Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol 2014

*'Yna daw amser y Profion a mae fy nisgyblion yn teimlo'n fethiant ac yn aml yn ddagreuol.'*

## Adborth UCAC

### Cyflwyniad

Cynhaliwyd profion rhifedd a darllen cenedlaethol i ddisgyblion Cymru rhwng Mai 5ed a'r 12fed eleni. Holodd UCAC farn aelodau ynghylch gwahanol agweddau o'r profion hyn.

Mae'r ddogfen yma yn amlinellu'r prif themâu a leisiwyd mewn adborth i'n hymgyngoriad a'r aelodau. Ein nod fel undeb fydd ceisio dylanwadu ar y cyrff perthnasol fel ein bod yn ceisio gwella y drefn yn 2016.

### Cefndir

Cynhaliwyd y profion rhwng Mai 5-12, 2015 a hynny i blant ym Mlynnyddoedd 2-9. Cynhaliwyd profion darllen Cymraeg a Saesneg i'r plant sy'n dilyn rhaglen astudio Cymraeg ym mlynnyddoedd 3-9 ynghyd â phroffion Mathemateg Gweithdrefnol a Rhesymu.

### Holi ein Aelodau

Mae UCAC wedi gofyn barn yr aelodau parthed y profion cenedlaethol ers eu dyfodiad. Eleni, gofynnwyd cwestiynau penodol i'n haelodau parthed y profion a derbyniwyd ymateb rhagorol i'n cais am wybodaeth. Isod, ceir blas o ymateb ein aelodau fesul cwestiwn cyn manylu ar rai pwyntiau penodol a godwyd gan gynnwys ymateb gan rai penaethiaid.

### Oes gwelliant wedi bod gyda threfniadaeth / gweinyddiad y profion eleni?

Ymddengys mai ychydig iawn o newid fu yn nhrefniadaeth a gweinyddiad y profion eleni gyda sawl ysgol yn lleisio'r un rhwystredigaethau ac a waned o'r blaen.

*'Nid ydym yn profi gallu llythrennedd neu rifedd ond y gallu ein plant i weithio dan amgylchiadau prawf'*

Mae'n amlwg fod amrywiaethau mawr ar draws y wlad cyn belled ac y mae marcio'r profion gyda rhai ysgolion yn defnyddio'r arian a dderbynnir i dalu athrawon i farcio papurau ond mae'n amlwg nad yw hyn yn arferiad ymhob ysgol. Deallwn gan ein haelodau fod llawer o ysgolion yn defnyddio'r ychydig arian a dderbynnir gan y Llywodraeth i weinyddu'r profion ar dâl i oruchwylwyr. Golyga hyn yn aml nad oes arian ar ôl i dalu athrawon am farcio'r papurau.

### Oes angen ystyried amserlen cenedlaethol ar gyfer y profion?

Derbyniwyd sawl sylw ar draws y ddwy sector o'r farn y dylid cael amserlen genedlaethol ar gyfer y profion. O'r ymatebion a dderbyniwyd mae mwyafrif o'r blaid y byddai trefnu amserlen fel bo plant ymhob ysgol yn sefyll yr un prawf *'er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch.'*

*'Mae angen sicrhau bod pob disgybl yn sefyll y profion ar yr un adeg er mwyn cael cysondeb, yn enwedig wrth ystyried y pwyslais cynyddol sydd yn codi yn seiliedig ar ddata canlyniadau'r profion.'*

Mynegodd sawl aelod nad oedd y profion yn cael eu cynnal ar yr amser delfrydol. Rhai yn nodi mai gwell fyddai eu cynnal yn ddiweddarach yn nhymor yr haf. Cododd sawl aelod y ffaith fod wythnos yn ychydig iawn o amser i ysgolion sy'n profi'r plant mewn darllen Cymraeg gan fod un prawf ychwanegol i'w amserlennu. Teimlid y dylai'r amser gael ei ymestyn. Mynegwyd pryder fod amserlen y profion yn gorgyffwrdd ac amserlen TGAU.

## **Nodwyd llynedd bod Profion Cenedlaethol 2014 yn heriol tu hwnt, yn enwedig i ddisgyblion llai abl neu ddisgyblion ag anghenion addysgu ychwanegol. Oedd hyn yn wir eleni?**

Ymddengys fod hyn yn wir am brofion 2015 yn ogystal. Un farn a amlygwyd drosodd a throsodd yn yr ymatebion a dderbyniwyd oedd y ddiffyg gwahaniaethu o safbwynt y profion. Mae ysgolion yn gwahaniaethu gwaith ar gyfer dysgwyr ar sawl lefel yn ddyddiol. Bydd targedau gwahanol yn cael eu gosod ar gyfer grwpiau gwahanol o ddysgwyr fel bod pob disgybl yn profi llwyddiant er mwyn cynyddu eu hyder. Mae hyn yn ail natur i athrawon ymhob sector bellach ac wrth reswm, disgwylir i hyn ddigwydd pan fydd Estyn yn arolygu. Mae teimlad cryf fod y profion cenedlaethol yn chwalu ffordd yma o ddysgu yn rhacs gan fod pob plentyn yn derbyn yr un papur yn ddibynnol ar oedran ac nid ar allu. Mae teimlad cyffredinol fod manteision asesu ffurfiannol yn cael ei roi o'r neilltu yn ystod cyfnod y profion sydd yn cael effaith negyddol ar addysg y disgyblion.

Mae sawl aelod wedi adrodd storïau torcalonnus am blant yn wylo wrth fethu gwneud y profion. Diflannodd arferion o roi pwysau afresymol ar blant fel hyn o'n hysgolion diolch i'r dref, ond daw rhyw adlais o oes a fu i'n hysgolion wythnos y profion.

***'Yna daw amser y Profion a mae fy nisgyblion ADY yn teimlo'n fethiant ac yn aml yn ddagreuol.'***

Roedd barn gref ymhlith yr ymatebion fod y profion yn heriol iawn a bod angen edrych yn fanwl ar y ddarpariaeth ar gyfer plant ADY. Mae sawl aelod yn nodi y gellid cychwyn y papurau gyda cwestiynau llai heriol er mwyn codi hyder y plant a rhoi ychydig o lwyddiant iddynt ar ddechrau'r prawf.

## **A oedd y profion Llythrennedd (Cymraeg), Llythrennedd (Saesneg) a Rhifedd o'r un lefel o her ar gyfer y grŵp(iau) oedran rydych chi'n eu haddysgu?**

Mynegodd sawl aelod fod cynnwys y papur darllen Cymraeg ar gyfer blwyddyn 6 yn ddiflas ac anniddorol o ran cynnwys ac mae sawl aelod wedi mynegi barn am dafodiaith rhai o'r papurau Cymraeg. Daeth barn gryf o'r cymoedd am newid ansawdd iaith y papurau Cymraeg fel bod gwell dealltwriaeth gan y plant.

***'Efallai nad yw'n Gymraeg "perffaith" ond dyma sut mae'n plant yn siarad!'***

Efallai bod angen codi'r mater yma yn genedlaethol, tu hwnt i'r profion. A ddylem bellach, ar rai achlysuron ddefnyddio Cymraeg sy'n ddealladwy i bob dysgwr petai'n byw yn Aberdaron neu Aberpennar?

Mae sawl un wedi nodi pryder nad oedd digon o amser wedi'i glustnodi ar gyfer y profion.

***'Fel adran teimlwn bod y cwestiynau ar y papur Gweithdrefnol yn ddigon teg ar gyfer y mwyafrif o ddisgyblion ond dyw'r amser ddim yn ddigonol. Does dim amser hyd yn oed gyda'r disgyblion gorau i wirio'r papur ac mae nifer o'r plant heb orffen y cwestiynau! Mae angen o leiaf 45 munud ar y papurau yma fel bod y disgyblion yn cael siawns teg i berfformio i'w botensial.'***

## Oedd natur y cwestiynau, cynnwys a fformat y profion yn fwy addas eleni?

Mae teimlad cryf ymysg aelodau nad yw'r profion yma'n cyd-fynd ag ethos ac athroniaeth Cyfnod Sylfaen ac felly yn rhywbeth diarth iawn i blant blwyddyn 2 pan ddônt ar eu traws am y tro cyntaf. Derbyniwyd sawl barn gryf ynglŷn â hyn. Mae methodoleg y Cyfnod Sylfaen yn annog plant ymchwilio, i drafod efo'u cyd-ddisgyblion a chwestiynu, mae'r profion cenedlaethol yn hollol groes i'r athroniaeth yma.

*'Mae gen i ddosbarth sy'n cyrraedd y nod o ran deilliannau'r Cyfnod Sylfaen ond ni fydd canlyniadau'r profion yn dangos hyn o gwbl. Credaf yn gryf bod anghysondeb mawr rhwng egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a'r profion Cenedlaethol.'*

Mae'n wir bryder fod y profion yn creu panig ymhlith plant. Daeth nifer o hanesion sy'n peri gofid mawr i'n sylw.

*'Roedd yn brofiad torcalonnus i weld fy mhlant bach hyderus yn gofidio oherwydd yn ystod y profion cawsant eu rhannu i fyny, methu siarad gyda phartner/grŵp neu ofyn am help yr athrawes. Roedd un bachgen yn crafu ei fraich ac wedi torri'r croen gyda nerfau ac roedd y plant bach sydd ag anghenion arbennig sy'n methu darllen yn dda wir ar goll.'*

*'Rwy'n gwybod am un dosbarth blwyddyn 6, lle aeth 7 plentyn allan o 17 mor ypset wrth geisio cwblhau'r prawf ymresymu nid yw hi'n bosib dod i unrhyw casgliadau ynglŷn a gallu neu wybodaeth y dysgwyr.'*

## Oedd y cwestiynau wedi'u graddio'n well eleni h.y. dechrau gyda chwestiynau rhwyddach a symud at yr anoddach?

Y teimlad cyffredinol a dderbyniwyd yn yr ymatebion yw nad oedd hyn wedi digwydd ym mhroffion eleni. Mae sawl aelod yn nodi fod y profion wedi eu cynllunio i 'ddal plant allan' yn hytrach na darganfod yr hyn maent wedi ei ddysgu.

*'Y cwestiwn anoddaf ar y papur rhesymu oedd y cwestiwn cyntaf!'*

## Sylwadau Cyffredinol

Mynegodd sawl pennaeth bryder fod pwysau mawr ar yr ysgolion i 'baratoi'r disgyblion' ar gyfer y profion. Golyga hyn fod profiadau cwricwlaidd yn cael eu 'parcio am gyfnod cyn y profion.' Mae teimlad fod pwysau ar yr ysgolion o du'r Llywodraeth ac o du'r consortia i sicrhau llwyddiant i'r plant yn y profion gan eu bod yn cael eu cymharu ag ysgolion mewn cynghreiriau. Teimla'r ysgolion bod pwysau arnynt i dreulio cyfnod cyn y profion yn hyfforddi'r plant ar sut i'w sefyll. Mae hyn, fel nododd un pennaeth er gwaetha'r ffaith fod Estyn yn eu hadroddiad ar Yr Arfer Orau yn argymhell fod ysgolion yn "Cynllunio dilyniant o gyfleoedd dysgu i ddisgyblion er mwyn iddynt gael profiad o ehangder y celfyddydau creadigol a datblygu'u medrau creadigol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r adroddiad hefyd yn annog ysgolion, consortia a'r Llywodraeth i gefnogi athrawon i ddatblygu'r medrau, y wybodaeth a'r hyder i addysgu'r celfyddydau creadigol yn dda." Mae teimlad cryf ymysg y pennaethiaid fod y profion yn mynd yn erbyn hyn a'r arferion da a sefydlwyd yn eu hysgolion.

Rwystredigaeth efo amseriad derbyn canlyniadau'r profion a godwyd gan sawl pennaeth Ymddengys fod llawer iawn o ysgolion yn dosbarthu adroddiadau blynyddol y plant rai wythnosau cyn diwedd y tymor. Mae hyn oherwydd yr orfodaeth ar ysgolion i gynnal cyfarfodydd rhieni pryd gellir trafod yr adroddiad blynyddol. Mae'r adroddiadau yma wrth reswm, yn cynnwys adrodd ar y Fframwaith Rifedd a Llythrennedd yn ogystal.

Er hyn nid yw'n bosib cynnwys canlyniadau'r profion efo'r adroddiad. Ni cheir dyddiad gan y Llywodraeth pryd y derbynir y canlyniadau ond yn y blynyddoedd diwethaf ni dderbyniwyd hwy tan ddyddiau olaf tymor yr haf. Golyga hyn fod ysgolion yn gyrru adroddiad arall allan i rieni yn ystod prysurdeb yr wythnos olaf. Lleisiwyd barn y byddai'n dda o beth, ac yn lleihau gwaith i gynnwys adroddiad y canlyniadau efo'r adroddiad blynyddol. Byddai modd gwneud hyn dim ond i ysgolion dderbyn canlyniadau'r profion ynghynt, neu o leiaf wybod pryd i'w disgwyl.

Nododd un aelod nad oedd ganddo wrthwynebiad i brofi plant yn ei hanfod ond fod y gyfundrefn o brofi'n genedlaethol yn wrthyn wrth ystyried y pwysau a roddir ar blant. Teimlid y gellid cynnal profion mewnol ac y byddai bydd hyn yn addas iawn ym mlwyddyn 4 a 6.

Yn sgil cyhoeddi Dyfodol Llwyddiannus, sef adolygiad o'r cwricwlwm yng Nghymru gan Yr Athro Graham Donaldson, mae lle i ofyn a yw'r drefn bresennol o asesu plant yn flynyddol yn cyd-fynd a'r egwyddorion a osodir yn yr adroddiad.

## Argymhellion

- Yn sgil cyhoeddiad Adroddiad Donaldson dylid ystyried diddymu'r profion.

## Ond o'u cynnal yna dylid

- Cael gwared o'r profion yn y Cyfnod Sylfaen;
- Cyflwyno arddull gwahaniaethol/graddedig i'r profion (h.y. sicrhau bod y cwestiynau'n mynd yn raddol anoddach drwy'r papur) er mwyn rhoi pwynt cychwyn cadarn i bob dysgwr;
- Sicrhau fod elfen wahaniaethol i'r profion;
- Ymgynghori â'r ysgolion ynglŷn â threfnu amserlen genedlaethol ar gyfer y profion;
- Ymgynghori â'r ysgolion a chytuno ar amser rhyddhau'r canlyniadau.

**Ywain Myfyr**  
**Mehffin 2015**



**UCAC**  
Undeb  
Cenedlaethol  
Athrawon  
Cymru



Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | [ucac@athrawon.com](mailto:ucac@athrawon.com)

[facebook.com/AthrawonCymru](https://www.facebook.com/AthrawonCymru) [twitter.com/AthrawonCymru](https://twitter.com/AthrawonCymru)

[www.athrawon.com](http://www.athrawon.com)